
# ‘GOFALU’ PECYN GWYBODAETH I DDIODDEFWYR

Mae’r pecyn hwn yn rhoi arweiniad i bawb sydd wedi dioddef a gweld trosedd.



www.victimsupport.org.uk/dyfed-powys

Mai 2026

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

VS CYMRU VICTIM SUPPORT DYFED POWYS

Heddlu • Police DYFED POWYS

# Rhagair



Dafydd Llywelyn
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Rwy'n deall y gall dioddef trosedd fod yn brofiad trawmatig, ac weithiau, gall newid bywyd. Un o'r blaenoriaethau a nodir yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddu yw cefnogi dioddefwyr, ac rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod pob dioddefydd yn cael ei gydnabod, ei ddiogelu a'i gefnogi, ac yn derbyn gwasanaeth wedi'i deilwra i'w anghenion unigol.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth bwysig y gall fod ei hangen arnoch nawr eich bod chi wedi adrodd am drosedd wrth yr heddlu. Mae hefyd yn nodi'r cymorth sydd ar gael ichi, a byddwn yn eich annog i ystyried ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth arbenigol y rhoddir manylion amdanynt. Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth hon yn eich helpu i deimlo'n wybodus a'ch bod chi'n cael eich cefnogi bob cam o'r ffordd.



Ifan Charles
Prif Gwnstabl

Er mwyn cyflawni blaenoriaeth y Comisiynydd Heddlu a Throseddu o gefnogi dioddefwyr, mae Heddlu Dyfed Powys yn gwneud pob ymdrech i ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i ddioddefwyr trosedd. Rwy'n cydnabod yr effaith dwys a pharhaus y gall bod yn ddioddefydd trosedd ei gael arnoch, ac rydw i eisiau eich sicrhau y byddwn yn eich cefnogi gyda pharch a thrugaredd.

Mae'r Pecyn Gwybodaeth Dioddefydd hwn yn esbonio beth fydd yn digwydd nawr eich bod wedi rhoi adroddiad am drosedd i ni, beth y gallwch ei ddisgwyl gan Heddlu Dyfed Powys, a pha gefnogaeth sydd ar gael i chi drwy wasanaethau cefnogi. Y mae hefyd yn nodi eich hawliau wrth i'r ymchwiliad symud yn ei flaen.

Rwyf yn gobeithio y bydd y wybodaeth a ddarperir yn y pecyn hwn, ynghyd â'r gwasanaeth y byddwch yn ei dderbyn gan Heddlu Dyfed Powys, yn eich cynorthwyo i deimlo eich bod yn derbyn cefnogaeth, parch a gofal.

# RYDYN NI'N GOFALU AM EIN DIODDEFWYR TROSEDD

Heddlu • Police
DYFED POWYS

www.dyfed-powys.police.uk
Difrys - 101
Os ydych chi'n fyddar neu'n drwm eich clyw, anfonwch neges destun at 07811 311 908

## Ein Cytundeb gyda Chi

Enw a chyfeiriad e-bost yr unigolyn sy'n ymdrin â'ch achos yw:

..............................................................................

@dyfed-powys.police.uk

Rhif ei Goler yw: ..................................

Manylion Cyswllt y Swyddog:

..............................................................................

Eich cyfeirnod Trosedd/Digwyddiad unigryw yw:.....................................................

**Byddai'n well gennych gael gwybodaeth drwy:**

- ☐ Ebost
- ☐ Wyneb yn wyneb
- ☐ Ffôn
- ☐ Gwrthod
- ☐ Neges Destun
- ☐ Post Brenhinol

**Gallwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi:**

Unwaith bob ☐ 7 ☐ 14 ☐ 21 diwrnod

☐ pan geir datblygiad pwysig yn yr achos h.y. pan fydd rhywun yn cael ei arestio, ei gyfweld dan rybudd, ei fechnïo, yn derbyn euogfarn neu pan benderfynir na fydd gweithredu pellach.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu wybodaeth
ynghylch eich ymchwiliad, galwch y swyddog neu anfonwch e-bost ato.

**Mae'n ddrwg gennym eich bod wedi dioddef trosedd, ac rydyn ni'n deall y gall hwn fod yn amser annifyr a llawn straen.**

Rydyn ni'n addo y byddwn:

Yn cysylltu â chi drwy gydol yr ymchwiliad
Yn sicrhau bod y cysylltiad wedi ei deilwra i'ch anghenion
Yn ymgynghori â chi ynghylch sut y byddwn yn gwneud hyn
Yn hawdd cael gafael arnom
Yn eich cyfeirio at asiantaethau eraill a all helpu
Yn sicrhau eich bod yn derbyn gwasanaeth o'r safon uchaf posibl

**Cyngor a Chefnogaeth Bellach:**

**Cymorth i Ddioddefwyr - 0300 1232996**
Dydd Llun – Dydd Gwener 09:00 - 18:00
Tu allan i'r oriau hyn, mae gennym linell gymorth 24/7 benodedig drwy 0808 1689 1111
Gwefan: www.victimsupport.org.uk


**Dewis Cymru**
Gwefan: www.dewis.wales/

**CrimeStoppers**
0800 555 111
Gwefan: www.crimestoppers-uk.org

---

Nodiadau:

## Y Broses o Adrodd am Drosedd ac Ymchwilio iddi



## Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr

**Pwy ydym ni?**
Cyflwynir Gwasanaeth i Ddioddefwyr Dyfed Powys gan Gymorth i Ddioddefwyr sef elusen dioddefwyr annibynnol arweiniol yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn darparu cymorth am ddim a chyfrinachol i unrhyw un y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

Rydym yn annibynnol ar yr heddlu ac awdurdodau lleol ond yn gweithio gyda nhw a'r system cyfiawnder troseddol gyfan a chyrff perthnasol eraill i wella gwasanaethau i ddioddefwyr a darparu'r cymorth y mae mawr ei angen.

**Beth ydyn ni'n ei gynnig?**
Rydym ni yma i gefnogi unrhyw un y mae troseddau neu ddigwyddiadau yn effeithio arnynt. Nid dioddefwyr yn unig yw hynny, ond eu ffrindiau, eu teulu, ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig. Gan ein bod yn annibynnol, gallwch siarad â ni p'un a wnaethoch adrodd am y drosedd i'r heddlu ai peidio. Gallwn:

- Eich helpu i deimlo'n fwy diogel
- Eich helpu i ddeall eich hawliau a'r gwasanaethau y mae gennych hawl iddynt
- Eich helpu i archwilio ffyrdd o ymdopi
- Eich cysylltu â gwasanaethau a rhwydweithiau cymorth

Mae gennym nifer o rolau arbenigol sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra i ddioddefwyr a all fod ag anghenion cymhleth, gan gynnwys Plant a Phobl ifanc y mae trosedd wedi effeithio arnynt. Gall pobl ifanc 13+ oed gyrchu'r gwasanaeth yn uniongyrchol.

**Sut gallwch chi gysylltu?**

**Ffoniwch ni**
Gall unrhyw un ein ffonio ni am ddim ar 0300 123 2996 Dydd Llun - Ddydd Gwener 9am - 6pm. Gallwn ddarparu cymorth mewn dros 200 o ieithoedd. Y tu hwnt i'r oriau hyn mae gennym Supportline 24/7 wedi'i neilltuo trwy 0808 1689 111

**Sgwrsiwch â ni**
Gallwch gael mynediad at ein gwasanaeth Sgwrs Fyw 24/7 yma

**E-bostiwch ni**
Gallwch anfon e-bost atom ni ar dyfed.powys@victimsupport.org.uk neu gallwch hunangyfeirio trwy ein gwefan yma

**Atgyfeiriad Proffesiynol**
Gall gweithwyr proffesiynol gyfeirio cleientiaid trwy lenwi ffurflen atgyfeirio, cysylltwch â ni am gopi trwy dyfed.powys@victimsupport.org.uk

**My Support Space**
Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn cynnig My Support Space, adnodd ar-lein wedi'i ddylunio i helpu goroeswyr (16+ oed) a'u cefnogwyr i reoli'r effaith y mae trosedd wedi'i chael arnynt.

Mae'n ofod am ddim, diogel a chyfrinachol, sy'n cynnwys canllawiau rhyngweithiol, fideos, technegau, gweithgareddau ac awgrymiadau. Gall unrhyw un gofrestru yn https://mysupportspace.org.uk/moj

## Uned Gofal Tystion

Uned o fewn Heddlu Dyfed-Powys yw'r Uned Gofal Tystion. Mae'n cefnogi dioddefwyr a thystion ar eu taith drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Fel rhan o gael eich cefnogi gan Ofal Tystion, byddwch chi'n derbyn y canlynol:

- Swyddog Gofal Tystion penodedig, o'r gwrandawiad llys cyntaf hyd at y ddedfryd
- Asesiad anghenion llawn fel dioddefydd/tyst ar gyfer presenoldeb yn y llys
- Cymorth ar gyfer presenoldeb yn y llys yn ôl yr angen
- Diweddariadau a gwybodaeth am ddigwyddiadau arwyddocaol yn y broses lys, gan gynnwys dyddiadau gwrandawiadau llys a chanlyniadau.

Mae'r llinellau ar agor o 9y.b. tan 5y.h. o ddydd Llun i ddydd Iau, ac o 9y.b. tan 4.30y.h. ddydd Gwener

- Ffôn: 01267 2260396
- E-bost: witnesscareunit.cjit@dyfed-powys.police.uk

# Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd

## Pwy sydd â hawl i gymorth o dan y cod?

Mae hawl gan ddioddefwyr trosedd yng Nghymru a Lloegr i gymorth gan asiantaethau cyfiawnder troseddol o dan y Cod Ymarfer. Mae hyn yn cynnwys busnesau sydd wedi'u heffeithio gan drosedd a pherthnasau agos rhywun sydd wedi'i ladd o ganlyniad i drosedd.

## Crynodeb o Hawliau Dioddefwyr

Isod, ceir crynodeb o'r hawliau o fewn y Cod hwn. Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr, ac ni fydd rhai hawliau'n berthnasol ar gyfer pob dioddefydd.

**YR HAWL I FEDRU DEALL A CHAEL EICH DEALL**
Mae gennych yr Hawl i gael gwybodaeth mewn ffordd sy'n hawdd ei deall a chael cymorth i gael eich deall, gan gynnwys cael mynediad at wasanaethau cyfieithu pan fod angen.

**YR HAWL I GAEL MANYLION Y DROSEDD WEDI'U COFNODI HEB OEDI ANGHYFIAWN**
Mae gennych Hawl i gael manylion y drosedd wedi'u cofnodi gan yr heddlu cyn gynted â phosibl yn dilyn y digwyddiad. Os oes angen ichi roi datganiad tyst neu gael eich cyfweld, mae gennych Hawl i dderbyn cymorth ychwanegol i'ch cynorthwyo drwy'r broses hon.

**YR HAWL I GAEL GWYBODAETH WRTH ADRODD AM Y DROSEDD**
Mae gennych Hawl i dderbyn cadarnhad ysgrifenedig wrth adrodd am y drosedd, cael gwybodaeth am y broses cyfiawnder troseddol a chael gwybod am raglenni neu wasanaethau ar gyfer dioddefwyr. Gall hyn gynnwys gwasanaethau lle y gallwch gwrdd â'r drwgdybyn neu'r troseddwr. Gelwir hyn yn gyfiawnder adferol.

VS VICTIM SUPPORT CYMRU DYFED POWYS

**YR HAWL I GAEL EICH CYFEIRIO AT WASANAETHAU CYMORTH DIODDEFWYR A CHAEL GWASANAETHAU A CHYMORTH WEDI'U TEILWRA I'CH ANGHENION CHI**
Mae gennych chi'r Hawl i gael eich cyfeirio at wasanaethau cymorth dioddefwyr, gan gynnwys cysylltu â nhw'n uniongyrchol, a chael eich anghenion wedi'u hasesu fel bod modd teilwra gwasanaethau a chymorth i ddiwallu'ch anghenion. Os ydych chi'n gymwys, mae gennych chi'r Hawl i gael cynnig cyfeiriad at wasanaethau cymorth arbenigol a chael gwybod am gymorth ychwanegol sydd ar gael yn y llys (mesurau arbennig).

**YR HAWL I GAEL GWYBODAETH AM IAWNDAL**
Mae gennych yr Hawl i gael gwybod sut i hawlio iawndal.

**YR HAWL I GAEL GWYBODAETH AM YR YMCHWILIAD A'R ERLYNIAD**
Mae gennych yr Hawl i gael diweddariadau am eich achosion a chael gwybod pryd y cymerir penderfyniadau pwysig, gan gynnwys, os yn bosibl, sut i ofyn am i benderfyniad gael ei ailystyried.

**YR HAWL I WNEUD DATGANIAD PERSONOL DIODDEFYDD**
Mae gennych Hawl i wneud Datganiad Personol Dioddefydd, sy'n dweud wrth y llys sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi. Mae'n cael ei ddefnyddio gan y llys wrth ddedfrydu'r troseddwr. Byddwch chi'n cael gwybodaeth am y broses ac yn cael eich holi sut yr hoffech i'ch datganiad gael ei ddefnyddio yn y llys.

**YR HAWL I GAEL GWYBODAETH AM Y PRAWF, Y BROSES BRAWF A'CH RÔL FEL TYST**
Os yw'ch achos yn mynd i'r llys, mae gennych yr Hawl i gael gwybod amser, dyddiad a lleoliad unrhyw wrandawiad a chanlyniad y gwrandawiadau hynny. Os oes angen ichi roi tystiolaeth, mae gennych yr Hawl i gael cynnig cymorth cyn y prawf a, lle bo'n bosibl, cwrdd â'r erlynydd cyn rhoi tystiolaeth.

**YR HAWL I GAEL GWYBODAETH AM GANLYNIAD YR ACHOS AC UNRHYW APELIADAU**
Mae gennych yr Hawl i gael gwybod am ganlyniad yr achos, ac os yw'r diffynnydd yn cael ei euogfarnu, cael esboniad o'r ddedfryd. Os yw'r troseddwr yn apelio yn erbyn ei euogfarn neu ddedfryd, mae gennych yr Hawl i gael gwybod am yr apêl a'i chanlyniad.

**YR HAWL I GAEL TREULIAU WEDI'U TALU A CHAEL EICH EIDDO YN ÔL**
Os oes angen ichi fynd i'r llys a rhoi tystiolaeth, mae gennych yr Hawl i hawlio treuliau penodol. Os cymerwyd eich eiddo fel tystiolaeth, mae gennych yr Hawl i'w gael yn ôl cyn gynted â phosibl.

**THE RIGHT TO BE GIVEN INFORMATION ABOUT THE OFFENDER FOLLOWING A CONVICTION**
If eligible, you have the Right to be automatically referred to the Victim Contact Scheme, who are able to provide you with information about the offender.

**YR HAWL I GWYNO NAD YW HAWLIAU'N CAEL EU BODLONI**
Os ydych chi'n credu nad ydych chi wedi derbyn eich hawliau, mae gennych yr Hawl i gwyno wrth y darparwr gwasanaeth perthnasol. Os ydych chi dal yn anhapus, medrwch gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaeth Iechyd Seneddol.

Cewch ragor o wybodaeth am y Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Trosedd ar y wefan ganlynol:
https://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime

# Datganiad Personol Dioddefydd

**Datganiad Personol Dioddefydd**
Mae'r Datganiad Personol Dioddefydd yn rhoi cyfle i chi, y dioddefydd*, esbonio yn eich geiriau eich hun sut mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi'n gorfforol, yn emosiynol, yn seicolegol, yn ariannol neu mewn unrhyw ffordd arall.

Mae'r Datganiad Personol Dioddefydd yn ychwanegol i'r Datganiad Tyst sy'n rhoi manylion am y gweithgarwch troseddol yr ydych wedi adrodd amdano.

**Pam gwneud Datganiad Personol Dioddefydd?**
Does dim rhaid ichi wneud Datganiad Personol Dioddefydd - mae'n wirfoddol. Fodd bynnag, mae Datganiad Personol Dioddefydd yn rhoi llais ichi yn y System Cyfiawnder Troseddol, lle yr ydych chi'n dweud faint mae'r drosedd wedi effeithio arnoch chi a'ch bywyd o ddydd i ddydd, cyn adrodd am y drosedd ac ers hynny. Gall chwarae rôl allweddol mewn dedfrydu.

**Pryd i wneud Datganiad Personol Dioddefydd**
Medrwch roi'ch Datganiad Personol Dioddefydd ar unrhyw adeg cyn i'r troseddwr gael ei ddedfrydu. Mae'n cael ei roi'n ysgrifenedig i'r heddlu, neu, os oes cyfleusterau ar gael, gellir ei recordio. Mae Datganiad Personol Dioddefydd yn ddatganiad ffurfiol a bydd angen ichi arwyddo datganiad sy'n cadarnhau ei fod yn wir hyd eithaf eich gwybodaeth. Unwaith y bydd Datganiad Personol Dioddefydd wedi'i roi i'r heddlu, ni ellir ei dynnu yn ôl na'i ddiwygio. Fodd bynnag, cewch wneud Datganiad Personol Dioddefydd ychwanegol os ydych chi'n dymuno hynny.

**Beth allwch chi GYNNWYS yn eich Datganiad Personol Dioddefydd?**
Efallai y byddwch eisiau ystyried y canlynol:

- unrhyw anaf corfforol, emosiynol neu seicolegol y gallech chi fod wedi'i ddioddef a / neu unrhyw driniaeth y gallech chi fod wedi'i derbyn o ganlyniad i'r drosedd,
- unrhyw effaith ariannol o ganlyniad i'r drosedd,
- yr effaith ar eich teulu,r effaith ar eich teulu,
- os nad ydych chi'n teimlo'n ddiogel mwyach - os ydych chi'n teimlo'n fregus neu wedi'ch brawychu
- sut y mae ansawdd eich bywyd wedi newid o ddydd i ddydd,
- os ydych chi'n poeni am y troseddwr honedig yn derbyn mechnïaeth,
- os ydych chi'n teimlo bod y drosedd wedi'i chymell gan hil, neu fod eich ffydd, rhywioldeb neu anabledd wedi chwarae rhan yn y drosedd,
- os ydych chi angen neu'n derbyn cymorth ychwanegol o ganlyniad i'r drosedd,
- os ydych chi'n bwriadu hawlio iawndal gan y troseddwr honedig am anaf, golled neu ddifrod.

**Beth NA allwch gynnwys yn eich Datganiad Personol Dioddefydd**
- Eich syniadau neu'ch barn ynglŷn â sut y dylid cosbi'r troseddwr.
- Gallai unrhyw gynnwys amhriodol yn eich Datganiad Personol Dioddefydd, megis honiadau nas profwyd yn erbyn y troseddwr, gael eu tynnu o fersiwn terfynol y datganiad cyn ei gyflwyno i'r llys.

**Yn y Llys**
Os yw'r troseddwr yn cael ei gyhuddo, ac yn mynd i'r llys, bydd yr amddiffyniad yn gweld eich Datganiad Personol Dioddefydd. Os yw'r diffynnydd yn pledio'n ddieuog, fe allech gael eich holi am eich Datganiad Personol Dioddefydd yn y llys.

Os yw'r diffynnydd yn pledio'n euog, neu os yw'n cael ei ganfod yn euog, bydd y Llys yn ystyried eich Datganiad Personol Dioddefydd wrth benderfynu pa ddedfryd i'w rhoi. Os ydych chi'n dymuno hynny, medrwch ddewis darllen eich Datganiad Personol Dioddefydd i'r Llys, neu fe ellir ei ddarllen yn uchel ar eich rhan.

**Gwybodaeth Bellach**
Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y Datganiad Personol Dioddefydd, cysylltwch â'r swyddog sy'n ymdrin â'ch achos, Gwasanaeth Cymorth i Ddioddefwyr neu unrhyw aelod o'ch tîm plismona lleol.

*Mae'r *Cod Ymarfer Dioddefwyr hefyd yn rhoi'r hawl ichi wneud datganiad effaith pellach os yw'r drosedd yr adroddwyd amdani wedi effeithio ar eich busnes neu fenter, e.e. elusen, o ran yr effaith ariannol uniongyrchol a/neu anuniongyrchol.*

## Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (HDA)

Bydd Hawl Dioddefwyr i Adolygiad yr Heddlu ond yn berthnasol ar gyfer y canlynol:

- Troseddau Safon Genedlaethol Cofnodi Troseddau
- Materion traffig ffyrdd anafiadau sy'n newid bywyd

Mae gennych hawl i ofyn am adolygiad, o fewn tri mis ar ôl cael eich hysbysu, o benderfyniad gan yr heddlu i beidio ag erlyn unrhyw ddrwgdybiedigion. Cyfeirir at hyn fel DGP (Dim Gweithredu Pellach).

Bydd HDA yr Heddlu ond yn berthnasol ar gyfer penderfyniadau a wnaed ar 1 Ebrill 2015 neu wedi hynny.

Mae hawl gennych i adolygiad lle mae drwgdybyn wedi'i adnabod a'i gyfweld.

**Sut i wneud cais am adolygiad**

- Mae ffurflen ar-lein ar wefan Heddlu Dyfed-Powys
- Anfonwch e-bost at victimsreview@dyfed-powys.police.uk
- Ysgrifennwch at Hawl Dioddefwyr i Adolygiad, Yr Adran Cyfiawnder Troseddol, Pencadlys Heddlu Dyfed-Powys, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

**Beth sy'n digwydd nesaf**

Pennir adolygiad i Swyddog Adolygu sy'n Arolygydd neu uwch, gan ddibynnu ar natur yr ymchwiliad. Cofiwch, nid cwyn yn erbyn y gwasanaeth yr ydych wedi'i dderbyn yw cais am adolygiad.

Dylid cwblhau adolygiad o fewn 30 diwrnod gwaith (h.y. 6 wythnos ar ôl derbyn y cais am HDA). Mewn achosion cymhleth neu sensitif, gall gymryd mwy o amser. Byddwch chi'n derbyn diweddariadau rheolaidd.

**Achosion na ellir eu hadolygu**

NID yw'r achosion canlynol yn syrthio o fewn cwmpas HDA yr heddlu:

- Lle nad oes drwgdybyn wedi'i adnabod a'i gyfweld.
- Lle nad oes digon o dystiolaeth i gyfweld â drwgdybyn.
- Lle mae cyhuddiadau'n cael eu dwyn mewn perthynas â rhai, ond nid pob un, o'r honiadau a wnaed neu yn erbyn rhai, ond nid pob un, o'r drwgdybiedigion posibl.
- Lle mae'r cyhuddiad trosedd yn wahanol i'r drosedd a gofnodwyd ond yn ymwneud â'r mater yr adrod dodd y dioddefydd amdano. Er enghraifft, os cyhuddwyd y drwgdybyn ag ymosodiad cyffredin, ond cofnodwyd trosedd o wir niwed corfforol.
- Lle mae achos yn dod i ben gyda gwarediad y tu allan i'r llys.
- Pan mae'r dioddefydd yn tynnu ei g yn yn ôl neu'n gwrthod cydweithredu â'r ymchwiliad a phenderfynir peidio â chyhuddo neu gyfeirio'r achos at Wasanaeth Erlyn y Goron (GEG) ar gyfer penderfyniad cyhuddo.

**Canlyniadau adolygiad/Apeliadau**

Cysylltir â chi i roi gwybod ichi am y canlyniad a rhoi esboniad ichi.

Os ydych chi'n anfodlon â'r penderfyniad HDA, cewch ofyn am apêl HDA, a fydd yn cael ei gynnal gan swyddog sy'n uwch na'r swyddog adolygu HDA.

Dylid cwblhau adolygiad apêl HDA o fewn 30 diwrnod gwaith (h.y. 6 wythnos ar ôl derbyn y cais am HDA). Mewn achosion cymhleth neu sensitif, gall gymryd mwy o amser. Byddwch chi'n derbyn diweddariadau rheolaidd.

Os ydych chi'n anfodlon â phenderfyniad apêl/HDA yr heddlu, cewch wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

**Eich hawl i adolygu penderfyniad GEG**

Mae Hawl Dioddefwyr i Adolygiad hefyd yn estyn i'r penderfyniadau hynny a wnaed gan Wasanaeth Erlyn y Goron. Caiff unrhyw ddioddefydd trosedd, perthynas mewn profedigaeth neu gynrychiolydd ofyn i'w achos gael ei adolygu os nad yw'n cytuno â phenderfyniad i beidio â chyhuddo'r drwgdybyn, terfynu gweithdrefnau neu beidio â chynnig tystiolaeth bellach yn y llys. Mae gennych hawl i ofyn i Wasanaeth Erlyn y Goron adolygu'r penderfyniad hwn. Cewch fanylion am sut i wneud hyn ar 'www.cps.gov.uk'.

## Mynd i’r llys

Os yw’ch achos yn mynd i’r llys, fe allech fod yn dyst yn y prawf. Os nad yw’ch achos yn mynd i’r llys, dylech gael gwybod y rheswm am y penderfyniad hwn.

**Gwasanaeth Gofal Tystion**
Os yw’r achos yn mynd i’r llys, pennir Swyddog Gofal Tystion (neu bwynt cyswllt arall) ichi. Cewch ofyn unrhyw gwestiwn iddynt am fynd i’r llys a byddant yn eich diweddaru am yr hyn sy’n digwydd.

**Pa gymorth allaf ddisgwyl wrth fynd i’r llys?**
Bydd y swyddog sydd â gofal dros eich achos a’r Swyddog Gofal Tystion yn eich diweddaru am unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol wrth i’r achos fynd drwy’r system. Cynhelir asesiad o anghenion er mwyn sicrhau eich bod chi’n derbyn y cymorth cywir sydd ei angen. Gallai’r cymorth hwn gynnwys cyfeiriadau at asiantaethau cymorth megis Cymorth i Ddioddefwyr, Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol.

**Cymorth yn y Llys - Mesurau Arbennig**
Mae mesurau arbennig yn drefniadau a sefydlir i'ch helpu chi, os ydych chi'n ddioddefydd neu'n dyst bregus neu wedi'ch bygwth i roi tystiolaeth yn y llys yn y ffordd orau bosibl. Gall Dioddefwyr a Thystion Bregus neu wedi'u bygwth ofyn am fesurau arbennig i'w defnyddio yn ystod yr achos. Gall hyn eu helpu i roi'r dystiolaeth orau. Mae hyn yn cynnwys Dioddefwyr a Thystion sy'n iau na 18 oed.

TYmhlith y mesurau arbennig sydd ar gael i ddioddefwyr bregus neu sydd wedi'u bygwth, gyda chytundeb y llys, yw:

**Sgriniau** - ar gael i'ch sgrinio chi rhag y diffynnydd yn y llys fel nad oes modd i'r diffynnydd eich gweld chi wrth ichi roi tystiolaeth

**Cyswllt Byw** - gallwch roi tystiolaeth yn ystod yr achos o ystafell y tu allan i ystafell y llys neu leoliad addas y tu allan i'r llys, trwy gyswllt teledu byw. Gellir gwneud cais am sgriniau, i rwystro golygfa'r diffynnydd o'r monitorau teledu yn y llys.

**Rhoi tystiolaeth yn breifat** - gwahardd aelodau o'r cyhoedd o'r llys wrth ichi roi tystiolaeth.

**Tynnu wigiau a gwisgoedd ffurfiol** - a ddefnyddir yn Llys y Goron. Barnwr a Chyfreithwyr yn tynnu eu wigiau a'u gwisgoedd ffurfiol i greu amgylchedd llai ffurfiol. Fe ddefnyddir hyn yn bennaf ar gyfer tystion ifainc.

**Cyfweliad wedi'i Recordio ar Fideo fel y Dystiolaeth Gyntaf** - o dan rai amgylchiadau bydd yr heddlu yn casglu'ch adroddiad trwy gyfweliad fideo yn hytrach na datganiad ysgrifenedig. Gallai'r erlyniad wneud cais i'r cyfweliad fideo hwn gael ei ddefnyddio yn hytrach na'ch bod chi'n rhoi tystiolaeth yn gorfforol yn y llys.


Gofyn i rywun (**canolwr**) i'ch helpu chi i ddeall y cwestiynau pan fyddwch chi'n cael eich cyfweld neu'n rhoi tystiolaeth. Mae canolwyr yn esbonio cwestiynau ac atebion i'ch helpu chi i ddeall heb newid sylwedd y dystiolaeth.

**Cymhorthion cyfathrebu** - gallai'r rhain gael eu caniatáu i helpu tyst i roi tystiolaeth. Gallai hyn gynnwys defnyddio dehonglydd neu rywun i gyfathrebu ar eich rhan neu fe allai gynnwys defnyddio cymorth neu dechnegau cyfathrebu. Pa bynnag gymhorthion a ganiateir, rhaid iddynt gael eu dilysu yn annibynnol a bod y llys yn eu deall.

**Beth yw cyfryngwr?**
Mae Cyfryngwr cofrestredig yn unigolyn annibynnol sy'n gweithio gydag aelodau bregus cymdeithas. Os ydych chi'n disgyn i'r categori hwn byddant yn eich cynorthwyo chi os oes gennych anawsterau cyfathrebu. Bydd Cyfryngwr yn helpu i roi llais ichi os byddech chi'n profi anhawster wrth roi tystiolaeth fel arall, a bydd yn eich helpu chi i ddeall cwestiynau a ofynnir gan yr heddlu neu gan lys.

## Mynd i'r Llys

Byddwch chi'n cael eich cefnogi drwy gydol y broses lys gan yr Uned Gofal Tystion ac asiantaethau perthnasol eraill.



**Dewisiadau amgen i fynd i'r llys**
Mae ymdrin â throsedd allan o'r llys yn caniatáu i'r heddlu ymdrin yn gymesur â rhai troseddau. Gallai Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Erlyn y Goron neu'r Tîm Troseddwyr Ifainc ystyried fod y penderfyniadau hyn yn ddull mwy priodol o ymdrin â'ch achos. Os yw hyn yn wir, fe ofynnir ichi am eich barn ac fe fydd yn cael ei ystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad. Nid yw penderfyniadau allan o'r llys yn addas ar gyfer achosion mwy difrifol ac ar gyfer y rheini ble nad yw'r troseddwr yn derbyn cyfrifoldeb. Ni fyddent chwaith yn cael eu hystyried ar gyfer y rheini sy'n cyflawni troseddau droeon.

**Cyfiawnder Adferol**
Gan ddibynnu ar natur eich trosedd, fe ellir ymdrin â'ch achos gan ddefnyddio Cyfiawnder Adferol. Mae Cyfiawnder Adferol yn broses allan o'r llys, sy'n golygu bod y troseddwr yn cymryd rhyw gamau i wneud iawn am yr hyn mae wedi'i wneud. Mae'n fenter sy'n dwyn ynghyd dioddefwyr a'r rheini sy'n gyfrifol am drosedd.

**Sut mae'n helpu dioddefwyr?**
Defnyddir y broses i'ch helpu chi fel dioddefydd. Mae'n caniatáu ichi holi'r troseddwr pam y gwnaeth gyflawni'r drosedd ac mae prawf ei fod wedi helpu dioddefwyr i wynebu unrhyw ofnau sydd ganddynt. Mae'r broses yn caniatáu ichi drafod sut y mae'r drosedd y maen nhw wedi'i chyflawni wedi effeithio arnoch chi fel dioddefydd ac adnabod ffyrdd o atal y drosedd rhag digwydd eto. Mae'n rhoi cyfle ichi hefyd i ddweud wrth yr unigolyn sy'n gyfrifol am yr effaith wirioneddol y mae'r drosedd wedi'i chael arnoch chi. Gallwch ofyn cwestiynau a cheisio ymddiheuriad, ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Mae hawl gennych i ofyn am Gyfiawnder Adferol unrhyw adeg yn ystod y broses cyfiawnder troseddol. Serch hynny, rhaid bodloni rhai meini prawf cyn y gellir ymdrin ag achos fel hyn. Os hoffech chi wybod mwy neu i drafod Cyfiawnder Adferol a sut y gallai weithio ar eich cyfer chi, e-bostiwch restorativejustice@walescrc.probationservices.co.uk. Fel arall, gallwch drafod hyn gyda'r swyddog sy'n ymdrin â'ch achos.

**Beth yw'r Gwasanaeth Tystion?**
Mae'r gwasanaeth tystion yn helpu pobl i deimlo'n wybodus, eu bod yn cael eu cefnogi ac yn fwy hyderus wrth roi tystiolaeth yn y llys.

Rydym yn darparu cefnogaeth annibynnol am ddim i dystion yr erlyniad a'r amddiffyniad ym mhob llys troseddol yng Nghymru a Lloegr. Rydym hefyd yn cefnogi aelodau o'r teulu a ffrindiau sydd wedi colli rhywun, ac aelodau o deulu tystion sy'n mynychu'r llys.

Rydym yn helpu tystion i ddeall beth i'w ddisgwyl cyn, yn ystod ac ar ôl achos llys, ac yn cynnig cefnogaeth bob cam o'r ffordd.

Mae ein staff a'n gwirfoddolwyr hyfforddedig yma i wrando, ateb cwestiynau a helpu i wneud i'r broses llys deimlo'n llai brawychus, fel y gall tystion roi eu tystiolaeth orau.

**Cael cymorth gan y gwasanaeth tystion**
Os hoffech gael cefnogaeth gan y gwasanaeth tystion cyn i chi fynd i'r llys, cysylltwch â ni. P'un a ydych chi'n dyst neu'n weithiwr proffesiynol sy'n cyfeirio tyst at ein gwasanaeth, gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon.

Mae yna ffyrdd eraill y gallwch gysylltu â ni hefyd.

Os ydych chi'n dyst i'r erlyniad, gall yr Uned Gofal Tystion neu swyddog heddlu sy'n delio â'ch achos eich atgyfeirio am gymorth.

Os ydych chi'n dyst amddiffyn, gall y cyfreithiwr neu rywun arall o dîm cyfreithiol yr amddiffyn eich atgyfeirio.

Gallwch chi gael cymorth o hyd ar ddiwrnod yr achos os nad ydych chi wedi bod mewn cysylltiad â ni, neu os ydych chi wedi newid eich meddwl ynglŷn ag eisiau cymorth. Siaradwch ag aelod o staff y llys pan gyrhaeddwch adeilad y llys a gofynnwch am siarad â chefnogwr y gwasanaeth tystion.

**Cysylltu â'r gwasanaeth tystion:**
Os oes gennych gwestiynau am y gwasanaeth tystion neu os ydych yn ansicr ynglŷn â beth i'w wneud nesaf, mae cymorth ar gael. Gallwch gysylltu â ni yn y ffyrdd canlynol:

- drwy ffonio 0300 332 1000
- I gysylltu â ni gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain: 020 3830 2112 (Dargyfeiriad newydd)

- neu 0300 330 2123
- drwy e-bostio RIC@witnessservice.org.uk

Fel arall, os ydych chi'n dyst i'r erlyniad, efallai yr hoffech siarad â'r Uned Gofal Tystion yn lle hynny, yn enwedig os oes gennych ymholiad ynghylch sut mae'r achos yn gyrru yn ei flaen, treuliau teithio, neu faterion cymorth ymarferol eraill.

Hafan - Gwasanaeth Tystion

***Ydych chi'n ansicr yngl n ag unrhyw beth? Unrhyw beth o gwbl?***

***Mae Heddlu Dyfed-Powys yn deall y gall hwn fod yn amser anodd ichi. Hefyd, gall fod yn ddryslyd, yn enwedig â rhai o'r geiriau, termau a phrosesau y byddwch yn clywed yn cael eu defnyddio yn y System Cyfiawnder Troseddol.***

***Mae swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys i gyd yma i'ch helpu a'ch cefnogi, felly gofynnwch os oes unrhyw beth yr ydych yn ansicr amdano neu os hoffech gael esboniad.***

## Sut i wneud Cwyn

Mae gennych yr hawl i gael eich trin â pharch, yn sensitif ac mewn modd proffesiynol gan yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol sy'n cynnig cymorth a gwasanaethau i ddioddefwyr. Os nad yw hyn wedi digwydd neu ble nad yw'r gwasanaethau y mae gennych yr hawl iddynt wedi'u darparu, mae gennych yr hawl i gwyno.
https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cwynion-adolygiad-ac-apeliadau/cwynion/

Dylid ymdrin â chwynion yn gyflym ac yn gywir gan wasanaethau cwynion mewnol y sefydliadau. Cysylltir â chi cyn gynted â phosibl ar ôl i'r sefydliad dderbyn eich cwyn.

Os hoffech roi unrhyw adborth mewn perthynas â gwasanaeth a dderbynioch, pa un ai a hoffech ddweud diolch neu wneud cwyn, hoffem glywed wrthych. Cysylltwch â ni drwy un o'r dulliau canlynol:

- Drwy gwblhau'r arolwg ar-lein y byddwch yn ei dderbyn ar ôl naw wythnos.
- Dros y ffôn, gan ddefnyddio rhif difrys yr heddlu, 101
- Drwy'r post, gan ysgrifennu at Heddlu Dyfed-Powys, Pencadlys yr Heddlu, BLWCH POST 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF
- Yn bersonol, yn eich gorsaf heddlu agosaf.

Os oes angen cymorth arnoch i wneud cwyn, cewch ofyn i rywun weithredu ar eich rhan. Mae grwpiau cymorth neu sefydliad eirioli ar gael i helpu. Medrwn roi manylion cyswllt ichi os oes angen.

## Hawl i Ofyn am Adolygiad o'r ffordd y cafodd cwyn ei thrin

Os ydych chi'n anfodlon â'r ffordd y cafodd eich cwyn ei thrin, medrwch wneud cais am adolygiad, naill ai i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Bydd Adran Safonau Proffesiynol Heddlu Dyfed-Powys yn anfon llythyr canlyniad atoch sy'n esbonio'ch hawliau, gan gynnwys sut i wneud cais am adolygiad a'r amser sydd gennych i gyflwyno'ch cais.

Mae'n bwysig deall nad yw'r corff adolygu perthnasol yn medru ymchwilio eto i'ch cwyn. Y mae ond yn medru asesu pa un ai a gafodd eich cwyn ei thrin yn rhesymol a chymesur.

IOPC Independent Office for Police Conduct

Mae Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) yn goruchwylio system gwyno'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Y maent yn ymchwilio i'r materion mwyaf difrifol, gan gynnwys marwolaethau yn dilyn cysylltiad â'r heddlu, ac yn gosod y safonau yn ôl pa rai y dylai'r heddlu ymdrin â chwynion. Y maent hefyd yn gweithredu fel corff adolygu mewn perthynas ag achosion cwyn mwy difrifol sy'n bodloni meini prawf penodol.

Mae'r IOPC yn annibynnol, ac maent yn gwneud penderfyniadau'n annibynnol ar yr heddlu a'r llywodraeth.

Cliciwch yma am ragor o wybodaeth - https://policeconduct.gov.uk

## Rhagor o wybodaeth

**Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh)**
Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n gyfrifol am wasanaethau a gomisiynir ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.
Galwch heibio i https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/y-swyddfa/gwasanaethau-a-partneriaethau/ am ragor o wybodaeth.

---

**Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr**
Mae'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn annog dioddefwyr i rannu eu barn am y gwasanaethau maen nhw'n derbyn drwy'r System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r adborth hwn yn bwysig ar gyfer helpu i adnabod meysydd i'w gwella yn ogystal â chryfderau. Drwy gyfrannu at y fforwm, rydych chi'n helpu i wella cyflenwi gwasanaethau ar gyfer pob dioddefydd trosedd ledled ardal Heddlu Dyfed-Powys.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar 01267 226440, anfonwch e-bost at opcc@dyfed-powys.police.uk, neu galwch heibio i'r wefan https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/

---

**Dewis Cymru**
Mae gwefan Dewis Cymru'n cynnig cyfeiriadur cynhwysfawr o asiantaethau, gan gynnwys sefydliadau sector gwirfoddol, sy'n medru rhoi cyngor a chymorth ymarferol i unigolion. Gall dioddefwyr a thystion ddefnyddio'r wefan hon er mwyn nodi gwasanaethau priodol o fewn eu cymuned neu fe fydd y swyddog sydd â gofal dros yr achos / Gweithwr Cymorth dioddefwy yn cynorthwyo, atgyfeirio a chyfeirio fel y bo'n briodol. Am ragor o wybodaeth, galwch heibio i http://www.dewis.cymru/

---

**Cyswllt Dyfed Powys**
Gwasanaeth negeseua hawdd am ddim sy'n anfon gwybodaeth gan eich tîm plismona lleol yn syth i'ch cyfeiriad e-bost yw Dyfed-Powys yn Cysylltu. Penderfynwch sut a phryd rydych chi'n cael eich hysbysu a dewiswch yr hysbysiadau hynny sydd o'r pwys mwyaf i chi.

Atebwch yr e-bost er mwyn rhoi adborth i swyddogion lleol a rhannu pryderon yn uniongyrchol â nhw.

Cadwch eich bys ar y pwls. Cadwch mewn cysylltiad. Sganiwch yma i gofrestru i dderbyn hysbysiadau lleol.

NID yw Dyfed-Powys yn Cysylltu ar gyfer adrodd am droseddau neu ddigwyddiadau ac NID yw negeseuon yn cael eu monitro 24 awr y dydd.

---

**CrimeStoppers Cymru**
Elusen annibynnol yw Crimestoppers Cymru sy'n rhoi'r grym i bobl godi llais ac atal trosedd - yn gwbl ddienw. https://crimestoppers-uk.org/

---

**Byw Heb Ofn**
Rhoddir cymorth a chyngor ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. https://llyw.cymru/byw-heb-ofn

---

**Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh**
Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh - https://www.suzylamplugh.org/ - Cefnogi dioddefwyr stelcian drwy'r Llinell Gymorth Genedlaethol Stelcian a Gwasanaeth Cefnogaeth Stelcian Llundain. Eu cenhadaeth yw gostwng risg a lefelau camdriniaeth, ymddygiad ymosodol, a thrais - gan ganolbwyntio'n benodol ar stelcian ac aflonyddu - drwy addysg, ymgyrchu a chefnogaeth. Llinell Gymorth Genedlaethol Stelcian - 0808 802 0300.

---

**Y Llinell Gymorth Seiber**
Y Llinell Gymorth Seiber - https://www.thecyberhelpline.com/ Mae'r Llinell Gymorth Seiber yn darparu cymorth arbenigol am ddim i ddioddefwyr seiberdrosedd a niwed ar-lein.

---

**Y Samariaid**
Elusen gofrestredig yw'r Samariaid sydd wedi'i hanelu at ddarparu cymorth emosiynol i unrhyw un sydd mewn gwewyr emosiynol, sy'n cael trafferth ymdopi, neu sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Ffôn 116 123 https://www.samaritans.org

## Rhagor o wybodaeth

**Bawso**
Y prif sefydliad yng Nghymru sy’n darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i ddioddefwyr du ac ethnig leiafrifol a mudol sydd wedi profi cam-drin domestig, trais rhywiol, masnachu mewn pobl, anffurfio organau cenhedlu benywod, a phriodas dan orfod.

Ffôn: 0800 731 8147

Gwefan: https://bawso.org.uk/cy/

---

**Rhagor o Wybodaeth**
Cewch wybodaeth fanylach am gymorth a gwasanaethu ar gyfer Dioddefwyr a Thystion drwy https://www.victimsupport.org.uk, drwy alw 0808 168 9111, neu drwy gysylltu â'r swyddog sy'n ymdrin â'ch achos ac unrhyw aelod o'ch tîm plismona lleol.